

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 151 Rhif 2 Ionawr 11, 2018 50c.

DATGANIADAU TYMHOROL

Tros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd gwnaed datganiadau pwysig i'r wasg yn gyffredinol gan Ysgrifennydd Cyffredinol a Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Neges Dechrau Blwyddyn

Cyflwynwch ein hanes

Galwodd Glyn Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr, yn ei Neges Flwyddyn Newydd am ddysgu Hanes Cymru yng Nghymru. Dywedodd:



Ein hanes yw cof y genedl. Mae'n esbonio o ble y daethom ni, pwy ydym ni heddiw, ac yn helpu ein cyfeirio at yfory. Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Addysg Leol wneud adduned Flwyddyn Newydd fod hanes Cymru, a hanes o safbwynt

Cymreig, yn cael ei ddysgun ehangach yn ein hysgolion a'n colegau. Mae digwyddiadau a chymeriadau crefyddol wedi cyfrannu'n sylweddol tuag at ffurfio ein hunaniaeth fel cenedl

Ar hyn o bryd, ofnaf fod hanes ein gwlad yn gyffredinol, a'i hanes crefyddol yn benodol, yn cael ei esgeuluso. Yn 2017, er enghraifft, boom yn dathlu 300mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn – un o emynwyr mwyaf y byd, a roddodd lais i Ddiwygiad Mawr y 18fed ganrif, yr hyn a luniodd cymeriad ein cenedl yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r tyrfaoedd rygbi yn dal i ganu 'Bread of Heaven' Williams ond bach iawn a ddysgir yn ein hysgolion amdano ef a'r effaith gafodd ar ein cenedl. Mae'r un peth yn wir am William Salesbury, a gyfieithodd y Testament Newydd i'r

Gymraeg 450 mlynedd yn ôl i'r llynedd. Dyma'r athrylith wnaeth baratoi'r ffordd i William Morgan gyfieithu'r Beibl cyfan, a thrwy hynny sicrhau bod y Gymraeg yn goroesi hyd heddiw. Eto, oes yna sôn o gwbl am Salesbury yn ein hysgolion?

Neges Nadolig

Galwodd y Parchg Dr Geraint Tudur ar i 'gadoeddiad' y Nadolig gael ei wneud yn un parhaol. Dywedodd:



Rydym yn byw mewn oes o chwerwder gwleidyddol mawr, yn bennaf oherwydd Brexit. Mae'r chwerwder hwn yn cael ei fwydo gan benawdau ymfflamychol yn y wasg a chasineb tuag at unigolion ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall ymosodiadau personol o'r fath nid yn unig frifo pobl, ond gwneud iddynt ofni am eu diogelwch. Mae'n debyg y cawn gadoeddiad byr dros yr ŵyl, ond ofnaf y bydd ysbryd y Nadolig yn diflannu'n gyflym wrth i'r broses Brexit fynd yn ei blaen. Byddai'n wych o beth petai gwleidyddion a'r cyhoedd yn gyffredinol yn gweithredu dros y tymor hir neges a dymuniad carolau a'r ysgrythur am 'heddwch ar y ddaear' ac 'ewyllys da i bawb'. Caiff y geiriau eu darllen a'u canu yn frwd, ond eu hanghofio yn rhy fuan yn aml, gwaetha'r modd.

Dathlu'r Geni Gwyrthiol

Talgarreg, capel Pisgah

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd iawn gan blant Ysgol Sul Capel Pisgah, Talgarreg nos Sul 17 Rhagfyr, croesawyd pawb i'r oedfa gan y Gweinidog y Parchedig Carys Ann. Hyfforddwyd y plant gan Mrs Nia Evans, Dolgerdd, gyda chymorth wrth y piano Mrs Catrin Evans, Henbant. Cafwyd te Nadolig yn y Neuadd yn Nhalgarreg ac ymweliad gan Siôn Corn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Glynarthen

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig plant ysgol Sul Capel Glynarthen a phobl ifanc eglwysi Hawen, Bryngwenith, Glynarthen yng Nghapel Glynarthen dydd Sul 17 Rhagfyr dan arweiniad athrawes yr Ysgol Sul Mrs Ennis Davies, gyda chymorth Llion Davies wrth y deunydd Power Point a Mrs Rhian Evans yn gwasanaethu wrth yr organ. Diolch i bawb am oedfa arbennig. Diolch am ymweliad Siôn Corn a diolch i bawb a fu'n helpu mewn unrhyw fodd ar y te blasus yn y festri.



Plant ysgol Sul Capel Pisgah, Talgarreg



Plant ysgol Sul Glynarthen a phobl Ifanc Eglwysi Hawen, Bryngwenith a Glynarthen

Yr Ystwyll



Beth ddigwyddodd wedyn?

Nodwedd llyfr da, i mi beth bynnag, yw fy mod i ar ôl ei ddarllen yn gofyn tybed beth ddigwyddodd i rai o'r cymeriad wedi i'r stori orffen. Nid pob awdur sy'n barod i ysgrifennu dilyniant i'r stori wreiddiol, ond o gofio'r siom a ges i o ddarllen ambell ddilyniant, falle fod hynny'n beth da!

Mae'r un cwestiwn yn codi'n aml wrth ddarllen storïau'r Testament Newydd. Beth ddaeth o'r wraig a ddaliwyd yn godinebu wedi i Iesu ei hanfon hi i ffwrdd o gwr't y deml? Beth am Lleng ar ôl i Iesu a'i ddisgyblion hwylio ymaith o Gerasa? Beth benderfynodd y dyn ifanc cyfoethog wneud gyda'i arian a'i eiddo? A beth am y wraig wrth y ffynnon yn Samaria neu Nicodemus neu Seimon o Gyrene? A fu i'r un cyfarfyddiad yna gydag Iesu eu newid nhw neu ddim?

Stori'r Nadolig

Yn ystod y cyfnod yn arwain at y Nadolig bu'r cwestiwn yn aml ar fy meddwl mewn perthynas â'r gwŷr doeth. Eleni, am y tro cyntaf, penderfynodd rhai o eglwysi grŵp CYTÛN Pen-y-bont berfformio stori'r Nadolig. Dros 7 niwrnod ac 20 o berfformiadau, roeddwn, credwch neu beidio, yn un o'r gwŷr doeth! Ac wrth ddilyn y seren, yng nghwmni'r ddau ŵr doeth arall, i balas Herod ac yna ymlaen i Fethlehem, cyn cael ein gyrru gan yr angel i fynd adref ar hyd ffordd wahanol, bu digon o gyfle i feddwl. Beth ddigwyddodd iddynt wedyn? Pa mor bwysig a phellgyrhaeddol oedd eu cyfarfyddiad gydag Iesu?

Journey of the Magi

Dyma'r cwestiwn, wrth gwrs, mae'r bardd T. S. Eliot yn chwarae ag ef yn ei gerdd enwog 'Journey of the Magi.' Yn y gerdd clywir llais un ohonynt flynyddoedd yn ddiweddarach yn hel atgofion. Mae'n cofio taith lafurus a phoenus, 'A cold coming we had of it.' Mae'n cofio'r amheuan, 'the voices singing in our ears, saying, that this was all folly.' Mae'n cofio'r ansicrwydd ynglŷn â beth yn union oedd arwyddocâd y cwbl, 'were we led all that way for Birth or Death?' Mae'n cofio'r anniddigrwydd ar ôl dod 'nôl, 'no longer at ease here, in the old dispensation. With an alien people clutching their gods.' Mae yna amwyster, bwriadol falle, yn y gerdd. Er y

sylweddoliad nad oedd pethau ddim yn union yr un peth wedi'r daith, eto does dim egluro sut roedd y daith wedi eu newid, na beth yn union roedd y daith wedi ei olygu iddyn nhw.

Proskuneo

Mae rhai yn dadlau fod yr un amwyster i'w gael yn adroddiad Matthew o'r digwyddiad. Ai plygu i dalu teyrnged i frenin yr oedden nhw neu blygu i addoli un oedd yn cynrychioli'r sanctaidd a'r duwiol? Mae'n debyg fod y gair Groeg *proskuneo* a ddefnyddir gan Mathew yn gallu golygu'r ddeubeth, a bod Mathew yn defnyddio'r gair gyda'r ddwy ystyr wahanol yma ar achlysuron gwahanol yn ei efengyl.

Gwerth y cyfarfyddiad

'Beth ddigwyddodd wedyn?' Cwestiwn diddorol, ond faint o werth sydd mewn gwirionedd i ofyn y cwestiwn? Tybed mae'r rheswm pam nad yw'r Efengylau yn barod i ymhelaethu ynglŷn â beth ddigwyddodd i bobl ar ôl iddynt gwrdd ag Iesu, yw er mwyn ein helpu i sylweddoli mae'r cyfarfyddiad ei hun sydd yn bwysig a bod gwir werth yn y foment arbennig honno. Onid perygl holi beth ddigwyddodd wedyn yw cael ein tynnu i bob math o gyfeiriadau gwahanol, a cholli golwg ar werth a dilysrwydd y cyfarfyddiad ei hun? Rhaid mesur gwerth pob moment am yr hyn ydyw ar y foment honno. Ac wrth wneud hynny y mae manteisio'n llawn ar y foment.

Beth rym ni'n gweld yn y cyfarfyddiadau gydag Iesu yn y Testament Newydd yw eu bod yn cynnig y cyfle i gael bywyd wedi ei newid, ond mae fyny i'r unigolion beth wnaiff ef neu hi o'r cyfle. Daw Iesu i gwrdd â ni yn gyson, ond dydi ef ddim yn gwthio ei newidiadau ar yr un ohonom. Beth sy'n bwysig yw chwilio am y cyfarfyddiadau hynny yn ein bywydau ein hunain, a manteisio ar y cyfleoedd maen nhw'n eu cynnig i gael ein bywydau ni wedi newid.

Felly, beth wnawn ni o'n cyfarfyddiadau ni gyda Iesu yn 2018? Pa mor bwysig fyddan nhw i ni? Pa mor barod fyddwn ni i gael ein newid gan ein cyfarfyddiadau ag ef a pha mor bellgyrhaeddol fydd unrhyw newid yn ein bywyd ni eleni?

Robin Samuel

Gwerthfawrogiad

Dymuna Dewi Wyn Morris, Gwyndy, Môr Awel, Penygroes, Caernarfon a'r Parchedig Carys Ann a Maldwyn Lewis, Crug y Dderwen, Penrhiw-pâl, ddiolch i aelodau Gofalaeth Carys Ann a phawb am eu cydymdeimlad dwysaf, eu cymorth a'u cefnogaeth ym marwolaeth mab, brawd a brawd yng nghyfraith annwyl iawn sef Kenneth Wyn Morris.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cystadlaethau Cwpan Denman a Thlysau Cyfundeb Lerpwl, 2018

Cystadleuaeth Cwpan Denman

Cywaith gweledol gan ysgol Sul (poster, ffotograff, llun neu waith celf arall, yn mesur dim mwy na 4x3 troedfedd) ar y thema,

'Cymru a Madagascar'

Cystadleuaeth Tlysau

Cyfundeb Lerpwl

Cystadlaethau siarad cyhoeddus.

Mae dau ddsbarth.

Blynyddoedd ysgol 7-9 a 10-13.

Testun:

'Dwylo dros y Môr'

Y cywaith ac/neu enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd T John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 27 Ebrill 2018, os gwelwch yn dda.

Geraint Tudur

Ysgrifennydd Cyffredinol

Barn Annibynnol

Yr hen bwyllgorau!

Rhai da ydyn ni i alw pwyllgorau, ac ohonynt ffurfiwn is-bwyllgorau, ac o bryd i'w gilydd bwyllgorau bach o fewn yr is-bwyllgorau gan ddisgwyl iddynt, wedi cyfarfod, adrodd yn ôl i'r is-bwyllgor er mwyn adrodd yn ôl i'r pwyllgor gwreiddiol a alwyd yn y lle cyntaf! Ar goll? Fi hefyd!

Un o fy addewidion blwyddyn newydd yw peidio â ffurfio mwy o bwyllgorau o fewn yr eglwys sydd dan fy ngofal, ond yn hytrach eu galw'n 'grwpiau' neu'n 'weithgorau' sy'n canolbwyntio ar un dasg yn unig. Cawn weld am ba hyd y bydd y drefn newydd yn parhau!

Grŵp newydd

Llwyddwyd i greu un 'grŵp' newydd rai wythnosau'n ôl ac iddo un cyfrifoldeb yn unig. Grŵp o hanner dwsin o aelodau sy'n cysylltu â'i gilydd drwy 'messenger' a What's App. Yr enw arno yw 'Grŵp Bugeilio Teulu'r Tŷ Capel' – dolen gyswllt rhwng yr eglwys a'n cymdogion newydd o Syria, sydd bellach, wedi hen ymgartrefu yn ein Tŷ Capel. Grŵp o bobl y mae eu

hwynebau a'u henwau wedi dod yn gyfarwydd i'r teulu bach. Y nod oedd nid yn unig sicrhau bod y teulu'n derbyn ymweliadau cyson gan aelodau'r grŵp ond hefyd yn wynebau



Beti-Wyn James

y gallant oedi i sgwrsio â nhw mewn tref a chymuned sydd mor ddiieithr iddynt. Rydym wedi meistrolï'r dasg o gyfathrebu drwy'r ap Google Translate sy'n trosi'r Gymraeg i'r iaith Arabeg ar eu cyfer nhw, a'r iaith Arabeg i'r Gymraeg ar ein cyfer ni!

Yn dilyn llwyddiant y cydwethio rhyngom â Chyngor Sir Gâr sydd wedi hwyluso'r ffordd i ni groesawu'n cymdogion newydd, cefais gryn syndod wrth darllen yn ddiweddar ffigyrau a ryddhawyd dan y ddeddf rhyddid gwybodaeth yn dangos bod dau Gyngor Sir yng Nghymru eto i ail-leoli'r un ffoadur dros y 12 mis diwethaf, tra bo'r 20 Cyngor Sir arall wedi cyfrannu at ail-leoli o leiaf 325 o ffoaduriaid.

Wedi dweud hynny, rhaid cofio bod nifer o ffoaduriaid wedi ymgartrefu mewn cymunedau yng Nghymru drwy bartneriaid eraill, nad ydynt yn rhan o Raglen Ail-leoli'r Cynghorau Sir.

Un dasg

Ta waeth, yn ôl at fy ngrŵp newydd! Tra bo gan bwyllgor agenda hirfaith, un dasg yn unig sydd ar blatiau'r grŵp, a'r dasg honno'n cael ei chyflawni'n arbennig o dda hyd yn hyn. Ymhlith y pethau sydd ar y gweill mae ymateb i awydd y tad a'r mab i wyllo gêm bêl-droed. Grasusau! Fe fydd yn rhaid i'r gweinidog gyflwyno'r bêl hirgron iddynt cyn diwedd y gaeaf!

Wrth i ni gofio am y teulu bach o ffoaduriaid a adawodd eu cartref yn Nasareth ac a fu ar grwydr y Nadolig cyntaf, fe fu'r teulu bach y buom mor freintiedig o gael y cyfle i gynnig cartref iddynt yn ein gweddïau ni bob un hefyd.

Diolch i'r 'grŵp bugeilio' am beidio â cholli golwg ar bwrpas eu bodolaeth. Wedi'r cwbl, mae'n hawdd iawn colli golwg ar ein prif bwrpas wrth ffurfio is-bwyllgorau drwy'r amser a llwyddo, rywfodd neu'i gilydd i gymhlethu'n llwyr yr hyn a oedd ar y dechrau'n ddigon syml!

Blwyddyn newydd dda a syml i chi i gyd.

Beti-Wyn James

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tim golygyddol.)

Disgyblion ddoe a heddiw

'Tybed pa air fydddech chi'n ei ddewis yn y Gymraeg i gyfleu'r gair Saesneg

discipleship?' Dyma gwestiwn agoriadol Mrs Delyth Wyn Davies i fynychwyr diwrnod hyfforddi gweinidogion y gogledd a gynhaliwyd yn festri Capel Coffa ar 30 Tachwedd. Fel Swyddog Dysgu a Datblygu gyda'r



Eglwys Fethodistaidd, mae Delyth yn mynychu nifer fawr o gynadledau a sesiynau hyfforddi, a'r cyfan yn rhoi lle a phwysigrwydd y dyddiau hyn i wneud disgyblion. Mewn sgwrs ddiddorol ac adeiladol ar y testun 'Diffinio ac ail-ddiffinio', dangosodd Delyth fod yna rywbeth pwysicach na darganfod y gair cywir am *discipleship*, sef sicrhau fod meithrin ac annog disgyblion i Iesu Grist yn cael lle canolog yn ein heglwys y dyddiau hyn.

Cynllun Y Ffordd

Un ffordd rydym fel Undeb yr Annibynwyr yn cymryd yr her yma o feithrin disgyblion o ddiffirfa a cheisio adeiladu pobl yn eu ffydd a'u hyder yw cynllun *Y Ffordd*. Mae modd ymuno â'r cynllun ar unrhyw adeg a gwylïo'r deunydd fideo yn y drefn sy'n addas i ni fel eglwys. Tra bod deunydd y flwyddyn gyntaf yn edrych ar y Beibl,

cnewyllyn y Ffydd a datblygu'r Eglwys, mae'r ail flwyddyn yn edrych yn ôl ar 'y ffordd y daethom', gyda'r fideo cyntaf yn edrych ar y Diwygiad Protestannaidd a dechreuadau Annibyniaeth. O ddeall yn well o ble rydym wedi dod, y gobaith yw y byddwn yn medru canfod yn gliriach i ble rydym yn mynd.

Y ffordd y daethom

Gwahoddiad i edrych yn ôl a gawsom yn yr ail sesiwn ar y thema 'Y Ffordd y

Daethom: Oes y Saint'. Cyflwynodd y Parchedig Lloyd Jones, Ficer plwyf Beuno Sant Uwch Gwyrfaï, ddarlun o'r cyfnod cyntaf y cyrhaeddodd Cristnogaeth i Gymru, gan chwala rhai mythau am y cymunedau

Cristnogol cynnar megis Enlli, Clynnog Fawr a Thyddewi. Er eu bod yn ymddangos i'n llygaid modern fel llefydd i encilio ar myl gwareiddiad, fel arall yn llwyr oedd hi. Yn ystod y Mileniwm cyntaf, roedd y priffyrdd ar y môr nid ar y tîr felly, mewn gwirionedd, roedd y cymunedau Cristnogol yma wedi eu lleoli mewn mannau allweddol i fedru dylanwadu a chenhadu. Wrth graffu ar yr ychydig wybodaeth sydd gennym,



sylweddolwn, er mor wahanol oedd y cyfnod, fod yr un pethau yn bwysig i'r Cristnogion cynnar yma ag i ninnau heddiw. Roedd Gair Duw, diogelu cnewyllyn y ffydd a gwneud disgyblion yn ganolog i'w bywydau a'u tystiolaeth. Perthynent i gymunedau bach oedd yn derbyn arweiniad yr Ysbryd, ond ddim yn fodlon derbyn ymyrraeth na rheolaeth gan bobl o'r tu allan – ydy hyn yn swnio'n gyfarwydd? Awgrymodd y siaradwr mai'r rhain oedd yr Annibynwyr cyntaf ac y dylem eu harddel i ni'n hunain wrth i ni adrodd hanes 'y ffordd y daethom'.

Trai a llanw

Mae fideo cyntaf yr ail flwyddyn yn agor gyda'r ddelwedd o hanes Cristnogaeth a Hanes Annibyniaeth fel proses o lanw y thrai. Neges y diwrnod oedd bod llanw yn dilyn pob trai ac na ddylem ddigalonni. Nid ni yw'r Cristnogion cyntaf i wynebu anawsterau na bod yn lleiafrif mewn oes ddi-gred. Bu Beuno a Dewi a'u dilynwyr yno o'n blaenau, a llwyddo. Yr hyn a ddysgwyr yw bod ymdrechion ein rhagflaenwyr yn ddynion a merched o dan ddylanwad yr Ysbryd wedi dwyn ffrwyth a hynny'n ysgogiad i ni ymroi o'r newydd ar sylfaen y Gair, dan ddylanwad yr Ysbryd ac yng nghwmni ein cyd-ddisgyblion.

Diolchwyd i'r ddau siaradwr gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur am baratoi sesiynau difyr a bendithiol. Diolchwyd hefyd i Weinidog ac aelodau Capel Coffa am gael cynnal ein cyfarfod yn y festri ac am y baned a'r croeso hyfryd a gawsom ganddynt.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
welo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Ymweliad hanner blynyddol!

Ar ddwy adeg yn ystod y flwyddyn, bydd Ysgrifennydd Cenhadol Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM), y Parchg Wayne Hawkins, yn ymweld â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Geraint Tudur, yn Nhŷ John Penri. Pwrpas yr ymweliad yw trafod gweithgarwch cenhadol yr Undeb, a chynlluniau a gweithgarwch CWM.

Oherwydd prysurdeb, bu'n rhaid gadael yr ymweliad diweddaraf tan yn hwyr yn y flwyddyn. Rhwng Cynhadledd Ysgrifenyddion Cyffredinol CWM yng Nghaerdydd ym mis Medi, cyfarfod y Cyngor a chynhadledd fer 'Clywed Cri Duw' ym mis Hydref, a chynhadledd ar gaethwasiaeth yn Llundain ym mis Tachwedd, bu'n ddychrynlyd o anodd dod o hyd i gyfle i'r ymweliad ddigwydd ac i'r ddau Ysgrifennydd gyfarfod.

Penodiad newydd

Fodd bynnag, llwyddwyd ym mis Rhagfyr! Nid na fu i'r eira ddod yn agos at roi stop ar y cyfan, ond er gwaethaf y tywydd, trefnwyd fod yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn ymlwybro'n ofalus drwy'r esgryn eira o'r gogledd, ac Ysgrifennydd Cenhadol CWM yn ymlwybro mewn modd tebyg o ganolbarth Lloegr, er mwyn i'r ddau ohonynt gyfarfod yn Abertawe, a hynny o ddydd Llun hyd ddydd Mercher, 11-13 Rhagfyr.

Nid oedd y Parchg Wayne Hawkins yn teithio ar ei ben ei hun. Yn ddiweddar, yn dilyn ymadawiad David Cruchely fu'n Gynorthwydd iddo am rai blynyddoedd, penodwyd Cynorthwydd newydd gan CWM a hwn oedd ymweliad cyntaf Sainmili Kata ag un o enwadau CWM Ewrop. Yn wreiddiol o Fiji, mae Sai (fel y'i gelwir) erbyn hyn wedi cartrefu yn Lloegr, yn Gristion brwdfrydig ac egniol, a braf hynod oedd cael ei chroesawu i Dŷ John Penri.

**Cynllun Medrau**

Ar eu ffordd i Abertawe, bu i Wayne a Sai aros am ychydig yng Nghaerdydd i weld y Parchg Ddr Alun Tudur a Dyfan Graves.



Bu Dyfan, hyd at yn ddiweddar, ar y llong *Logos Hope*, y llong sy'n eiddo i'r mudiad cenhadol *Operation Mobilisation*. Wedi dychwelyd adref, mynegodd awydd i ymuno â Chynllun Datblygu Medrau CWM, yr Undeb ac Eglwys Ebeneser, Caerdydd, a bydd yn dechrau ar y cwrs yn gynnar ym mis Ionawr 2018. Yr oedd Wayne yn awyddus i'w gyfarfod ac i ddod i'w adnabod. Trannoeth yr ymweliad â Chaerdydd, yr oedd Wayne a Sai yn Nhŷ John Penri yn siarad gyda'r staff. Fel sy'n arferol ar yr ymweliadau hyn, ac yntau wedi bod yn trafod gweithgarwch yr Undeb gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol y noson flaenorol, yr oedd Wayne yn abl i drafod agweddau o'u gwaith gyda'r staff, a dilynwyd hynny wedyn gan ddefosiwn byr dan ei arweiniad.

**Dathlu a chyhoeddi MSP 4**

A hynny wedi ei wneud, cinio Nadolig staff Tŷ John Penri oedd y digwyddiad nesaf a chafwyd amser da a chryn dipyn o chwerthin o gwmpas y byrddau yn yr Alltwen. Soniwyd yno fod Undeb yr Annibynwyr wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am nawdd MSP4 gan CWM; y *Mission Support Programme* (rhif 4) oedd hon i baratoi, cynnal a datblygu rhaglen *Y Ffordd* dros y tair blynedd nesaf. Llonyfarchwyd yr Undeb, a phawb sydd wedi cyfrannu at y rhaglen, ar ei llwyddiant, a nodwyd fod gwerthfawrogiad cyffredinol o fewn teulu CWM o'r ffaith fod y rhaglenni fideo yn awr yn cael eu hisdeitlo er mwyn i'r di-Gymraeg, ble bynnag y bôn, fedru eu dilyn a'u deall.

Clywed Cri Duw

Unwaith eto, treuliodd Wayne a Geraint amser gyda'i gilydd nos Fawrth yn trafod rhaglen waith CWM, ac yn fwyaf arbennig brosiect 'Clywed Cri Duw' y mae cynrychiolwyr o'r Undeb wedi bod â rhan ynddo. Llonyfarchwyd y tîm cyfan o wirfoddolwyr ar eu cyfraniad, ac am eu parodrwyd i ymgymryd â'r gwaith, a'i gymryd o ddirif.

Madagascar 2018

Buan y daeth diwrnod olaf yr ymweliad, y bore dydd Mercher, ac wedi trafodaeth eto gyda staff Tŷ John Penri am y paratodau a'r cynlluniau ar gyfer dathlu'r flwyddyn nesaf ddaucanmlwyddiant glaniad y cenhadol o Geredigion ym Madagascar yn 1818, a sôn am yr holl archifau sylweddol o'r cyfnod sydd ar gadw yn Llundain, daeth ymweliad Wayne a Sai i ben ychydig cyn cinio.

Unwaith eto, fel yn y gorffennol, bu'n ddigwyddiad buddiol ac adeiladol. Tra'r oedd Wayne yn dysgu mwy am weithgareddau Undeb yr Annibynwyr, yr oedd staff yr Undeb yn dysgu am y cyfleoedd a'r posibilidau yr oedd CWM yn eu gosod o fewn ein cyrraedd fel Undeb ac eglwysi. Da o beth oedd hynny, oherwydd ni ddaw dim ond daioni o'r fath gydweithio ac o'r fath gyd-ddealltwriaeth, a diolchwn yn ddiffuant i Wayne a Sai am roi o'u hamser i ddod atom unwaith eto. Boed bendith Duw ar y ddau ohonynt wrth iddynt fynd ymlaen i ymweld â swyddfeydd yr enwadau eraill sy'n rhan o CWM Ewrop.